Cofnodion Cyfarfod Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd am 7.00pm ar ddydd Mercher, 8 Mehefin yn Neuadd y Sir, Llandeilo

Yn Bresennol: Cyng Ros Bellamy, Maer Colin Jenkins, Cyng Pamela Steane Price
Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies, Cyng Richard Wallace
Dirprwy Faer Hugh Towns, Cyng Fran Murphy, June Stait, Clerc

Fe wnaeth y Maer gyflwyno'r Clerc newydd, Roger Phillips.

6520/Mehefin/05 Ethol Cadeirydd
Fe wnaeth y Cadeirydd presennol wahodd enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd.
Cynigodd Cyng Roy Davies enw Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan Cyng Hugh Towns. Roedd pawb yn unfrydol ac etholwyd Cyng Fran Murphy fel Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Cynllunio

6522/Mehefin/05 Ethol Is-Gadeirydd
Cynigodd Cyng Ros Bellamy enw Cyng Richard Wallace ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd ac eiliwyd gan Cyng Roy Davies. Roedd pawb yn unfrydol ac etholwyd Cyng Richard Wallace fel Is-Gadeirydd yr Is-Bwyllgor Cynllunio.

6523/Mehefin/05 Ceisiadau Cynllunio i'w hystyried
Cefnogwyd y ceisiadau canlynol:

E/10120 Newid Fflat 3 sydd yn 2 Heol Caerfyrddin i fod yn un ystafell wely hunangynhwysol. Cynigodd Cyng Ros Bellamy gefnogi'r cais, ac eiliwyd gan Cyng Richard Wallace gyda phawb yn gytun.

E/10121 Newid amodau 1 a 4 yng nghaniatad cynllunio P6/8/12046/86 (a gymeradwywyd ar 28/8/86) er mwyn caniatau arwerthiant ar Sadyrnau ac amser gwylio ar ddydd Gwener tan 7pm, yn yr ystordy gyferbyn â Thomas Terrace. Fe wnaeth Cyng Hugh Towns ddangos diddordeb a gadael yr ystafell. Fe wnaeth y Cynghorwyr ystyried materion parcio, yn arbennig gan fod y Cyngor wedi cytuno i roi wyneb newydd ar Heol yr Orsaf yn y dyfodol agos. Y Clerc i ysgrifennu i ofyn i'r Cyngor Sir ystyried y posibilrwydd bod parcio digonol oddi ar yr heol, ac i annog parcio ym maes parcio'r Orsaf ar waelod Heol yr Orsaf er mwyn arbed problemau traffig pan fydd y gwaith yn dechrau ar yr heol. Unrhyw gerbydau ychwanegol i barcio ar heolydd cyfagos.
Cynigwyd gan y Maer Colin Jenkins, eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price. Y Cyngor Tref i gysylltu gyda Jones & Llewellyn er mwyn gofyn iddyn nhw i annog parcio ym maes parcio'r Orsaf.

E/10119 Gweithdy Gardd cyffredinol yn Utility Room, 1 Heol Clarendon. Fe wnaeth Cyng Roy Davies ddangos diddordeb a gadael yr ystafell. Fe wnaeth y Cynghorwyr ystyried y cynlluniau, ond roeddent yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth, yn arbennig am uchder yr adeilad arfaethedig, lefelau'r llawr ac os bydd y garej bresennol yn cael ei thynnu i lawr. Cynigwyd gan y Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Maer Colin Jenkins.

6524/Mehefin/05 Ceisiadau Cynllunio sydd wedi eu cymeradwyo
Cymeradwywyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan y Cyngor Sir:

E/09430 Newid y ffenestri a drysau aliwminiwm presennol yn archfarchnad CK's.
E/09571 Estyniad un llawr yn 19 Heol y Garreglas

6525/Mehefin/05 Trafnidiaeth

Fe wnaeth y Cynghorwyr ystyried y polisi parcio arfaethedig, ac awgrymwyd bod y cyfyngiadau Llwytho a Dadlwytho yn cael eu newid er mwyn caniatau llwytho a dadlwytho rhwng 10am – 3pm, a gofyn am esboniad pellach am yr hyn sy'n digwydd wedi 6pm. Ystyriwyd y syniad nad yw'r cyfleusterau parcio yn y dref yn ddigonol ar hyn o bryd, ac y dylid annog y Cyngor Sir i greu strategaeth sydd yn fwy helaeth na chyfyngiadau parcio yn unig. Cynigwyd gan y Maer Colin Jenkins.

6526/Mehefin./05 Goleuadau

Derbyniwyd wybodaeth bod un golau ddim yn gweithio ger y gampfa wrth Adeiladau'r Banc. Y Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns i roi gwybod am hyn

6527/Mehefin/05 Datblygiad Pencrug

Fe wnaeth y Cynghorwyr drafod y posibilrwydd o gael llwybr troed yn arwain o Pencrug i mewn i'r dref. Byddai'n ddefnyddiol trefnu cyfarfod rhwng y datblygwyr, y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref cyn i rhan nesaf y datblygiadau gychwyn, er mwyn trafod y polisi cynllunio. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf, pan fydd y polisi hefyd yn cael ei drafod.

6528/Mehefin/05 Cynllun Datblygu Unedol

Derbyniwyd gopïau o'r Cynllun Datblygu Unedol oedd yn berthnasol i dref Llandeilo, er mwyn i'r Cynghorwyr ei weld

6529/Mehefin/05 Trwyddedau

Nododd y Cynghorwyr gais wrth Elizabeth Ann Downes, i gymryd trwydded y The Salutation Inn.